



Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfod

Os ydych chi'n anghytuno gyda phenderfyniad a gymerwyd gan yr Awdurdod Tân neu weinyddwyr y Cynllun Pensiwn Tân mewn perthynas â'ch budd-daliadau, mae proses gwyno dau gam yn bodoli, o'r enw'r Weithdrefn Fewnol Datrys Anghydfod (GFDA).

Medrwyd gwyno dan y GFDA os ydych:

- yn ddarpar aelod sydd eisiau ymuno â Chynllun Pensiwn Newydd Diffoddwyr Tân, neu
- yn **Ddiffoddwr Tân** sy'n cyfrannu i gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân, neu Gynllun Newydd Diffoddwyr Tân, neu
- yn **Ddiffoddwr Tân Gohiriedig** sydd wedi gadael yr Awdurdod, ond sydd â'ch budd-daliadau yn y Gronfa Pensiwn Tân o hyd, neu
- yn **aelod-bensiynwr**, sydd ar hyn o bryd yn derbyn bydd-daliadau pensiwn o'r Gronfa Pensiwn Tân.

Wrth wneud eich cwyn, medrwyd ddewis rhywun arall i gynrychioli eich achos – ffrind, perthynas, cyfreithiwr neu gynrychiolydd undeb, er enghraifft.

Cam 1: Cwyn Ffurfiol

Dylech gwyno mewn llythyr at bwy bynnag rydych yn teimlo sydd ar fai, naill ai'r Awdurdod Tân neu Weinyddwr y cynllun, trwy gwblhau'r ffurflen gais o fewn **6 mis** i'r broblem gychwyn. Caiff ffeithiau eich achos eu hystyried ynghyd â rheoliadau'r cynllun, ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol.

Dylech dderbyn ateb ysgrifenedig o fewn **2 fis** o dderbyn eich manylion. Cyflwynir cadarnhad o'r penderfyniad, neu fel arall rhoddir rhesymau dros yr oedi cyn rhoi'r canlyniad.

Ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod Tân, cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd at:

Y Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salisbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ar gyfer cwynion yn erbyn Gweinyddwr y Cynllun, cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd at:

Y Rheolwr Pensiynau
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Cam 2: Apêl Bellach

Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad Cam 1, mae gennych **6 mis** i apelio i ganolwr Cam 2 a benodir gan y Gronfa Bensiwn. Rhaid i chi gyflwyno eich apêl Cam 2 mewn llythyr, a dylid anfon penderfyniad Cam 1 gydag o.

Medrwyd hefyd fynd yn syth i Gam 2, os:

- Ydych chi wedi mynd trwy Gam 1 a heb gael ateb o fewn **3 mis** o gyflwyno eich apêl, neu
- Rydych wedi mynd trwy Gam 1 a heb gael penderfyniad o fewn **mis** i'r dyddiad pan ddywedwyd y byddech yn cael un.

Dylai'r canolwr Cam 2 eich ateb o fewn **2 fis** o dderbyn eich cwyn.

Ar gyfer pob apêl Cam 2, cwblhewch y ffurflen gais sydd ynghlwm a'i dychwelyd at:

Cadeirydd yr ATA
D/O Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gwasanaeth Cyngori Pensiyniau (TPAS)

Cyn gofyn am help gan TPAS i ddatrys eich apêl, rhaid eich bod eisoes wedi ceisio datrys pethau drwy gyfrwng GFDA. Wedi hynny, mae TPAS ar gael er mwyn cael cymorth gydag unrhyw ymholiad am bensiynau.

Medrwyh gysylltu gyda'r cyngorydd TPAS lleol drwy eich Canolfan Cyngor ar Bopeth neu medrwyh gysylltu gyda'r swyddfa ganolog yn:

11 Belgrave Road
London
SW1V 1RB

Ffôn: 0845 601 2923

Ombwdsmon Pensiynau

Gall yr Ombwdsmon Pensiynau ymchwilio a phenderfynu ar unrhyw gŵyn neu anghydfod ynglŷn â'r ffeithiau neu'r gyfraith mewn perthynas â chynllun pensiwn galwedigaethol. Fel rheol, rhaid i gynlluniau pensiwn ac aelodau gyd-fynd â phenderfyniad yr Ombwdsmon oni fo'n cael ei wyrddroi gan lys. Bydd swyddfa'r Ombwdsmon Pensiynau fel rheol yn disgwyl eich bod wedi cael:

- Penderfyniadau GFDA cam un a dau gan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a'ch bod
- Wedi gofyn am help gan TPAS.

Nodwch bod angen i chi gyfeirio eich cwyn at yr Ombwdsmon o fewn **3 blynedd** o'r digwyddiad rydych yn cwyno amdano, neu o fewn **3 blynedd** i chi ddod yn ymwybodol o'r broblem am y tro cyntaf.

Manylion cyswllt yr Ombwdsmon yw:

11 Belgrave Road
London
SW1V 1RB

Ffôn: 020 7630 2200
Ffacs: 020 7821 0065
E-bost: enquiries@pensions-ombudsman.org.uk
Gwefan: www.pensions-ombudsman.org.uk

Rheolydd Pensiynau

Mae'r Rheolydd Pensiynau yn gorff gwarchod sy'n sicrhau bod cynlluniau yn cael eu rhedeg yn iawn, ac yn amddiffyn aelodau rhag twyll. Os ydych yn bryderus ynglŷn â chynllun, merwch adrodd am hynny i'r Rheolydd Pensiynau.

Manylion cyswllt y Rheolydd yw:

Napier House
Trafalgar Place
Brighton
BN1 4DW

Ffôn: 0870 606 3636

